**CWMNI COFRESTREDIG RHIF: 07779153 (Cymru a Lloegr)**

**ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF: 1146560**

**Addoddiad yr Ymddiriedolwyr a**

**Datganiadau Ariannol Archwiliedig ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth I Ben 31 Mawrth 2022**

**Ar gyfer**

**Llenyddiaeth Cymru/Literature Wales**

**Cynnwys y Datganiadau Ariannol**

**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2022**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr** | 3 - 44 |
| **Adoddiad yr Archwilwyr Annibynnol** | 47 - 50 |
| **Datganiad o Weithgareddau Ariannol** | 48 |
| **Mantolen** | 51 - 53 |
| **Datganiad Llif Arian** | 54 |
| **Nodiadau I'r Datganiad Llif Arian** | 55 |
| **Nodiadau I'r Datganiadau Ariannol** | 79 - 80 |
| **Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol** | 81 - 82 |


Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru

# Adroddiad a Chyfrifon Blynddol

## 2021/2022

ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth 31 Mawrth 2022




Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

**Cyflwyniad**

**Llenyddiaeth Cymru** yw'r cwmni cenedlaethol sy'n datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n **grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau** drwy lenyddiaeth. Byddwn ni'n **ysbrydoli cymunedau, yn datblygu awduron, yn ac dathlu diwylliant llenyddol Cymru** drwy wneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i gyfranogwyr, cryfhau effaith ysgrifennu creadigol, galluogi egin awduron i achub ar gyfleoedd, a gwella ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru.

# Cynnwys


Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr Dros Dro Llenyddiaeth Cymru ....... 5
Crynodeb on perfformiad 21/22 ....... 7
Ein Blwyddyn mewn Rhifau ....... 8
Gwariant ar Awduron ac Artistiaid 21/22 ....... 9
Ein Blwyddyn mewn arian ....... 11
Iechyd a Llesiant ....... 12
Ein Blwyddyn Ni 2021-2022 ....... 12
Plant a Phobl Ifanc ....... 14
Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb ....... 16
Diwylliant Llenyddol Cymru ....... 18
Datblygu Awduron ....... 20
Cyfranogi ....... 22
Gweithrediadau ....... 24
Codi Arian ....... 25
Cyfathrebu ....... 27
Monitro a Gwerthuso ....... 29
Tŷ Newydd 2021/22 ....... 31
Adnoddau Dynol ....... 34
Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector ....... 36
Hwyluso yn y Sector ....... 38
Risgiau ....... 40
Cyllid ....... 41
Ein Partneriaid ....... 42
Strwythur, Llywodraethu a Rheoli ....... 43

## Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr Dros Dro Llenyddiaeth Cymru

Rydyn ni'n falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn sy'n rhoi manylion ein gweithgareddau a'n gwaith yn ystod 2021-22. Yn y cyfnod hwn, buon ni'n parhau i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru, gan ddatblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2022-25 ar yr un pryd.

Fe ddechreuwyd y flwyddyn yng ngwanwyn 2021 drwy ffarwelio â'n Cadeirydd, Kate North, a chroesawu Cadeirydd newydd, Cathryn Charnell-White; daeth y flwyddyn i ben yng ngwanwyn 2022 drwy ffarwelio â Lleucu Siencyn, a fu'n Brif Weithredwr inni ers un mlynedd ar ddeg. Unwaith eto eleni, bu'n flwyddyn o heriau ac o newid, ond hefyd yn flwyddyn o gyfleoedd a llwyddiant i'n sefydliad. Cymerodd Leusa Llewelyn a Claire Furlong yr awenau fel cyd-Brif Weithredwyr dros dro ym mis Ebrill 2022 er mwyn arwain y sefydliad a lansio ei Gynllun Strategol newydd ar gyfer 2022-25.

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaed paratoadau i ymchwilio, ymgynghori, a datblygu'r Cynllun Strategol newydd hwnnw. Cyfrannodd y cyfarwyddwyr a'r holl staff at y broses o ddatblygu'r cynllun, gan ymgynghori â Ffrindiau Beirniadol a rhanddeiliaid a chreu gweledigaeth ar gyfer llenyddiaeth yng Nghymru ar sail gwerthoedd cyffredin a'r gred bod llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau. Mae'r cynllun strategol newydd yn datblygu ar gryfderau'r cynllun strategol diwethaf, ac yn rhoi lle cwbl flaenllaw i gynrychiolaeth a chydraddoldeb yn ein holl waith. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar yr argyfwng hinsawdd. Nod y cynllun yw ein galluogi i barhau'n ystwyth a chreu dyfodol cyffrous ac arloesol i'n sefydliad, ac yn bwysicach na dim, i'n diwylliant llenyddol a'n cymunedau.

Fe wnaeth COVID-19 barhau i'n herio ni a'r sector yn ystod y flwyddyn, gan fod cynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn dal yn anodd yn sgil ansicrwydd a chynnydd yn nifer yr achosion. Serch hynny, fe ddysgon ni wersi cadarnhaol at y tymor hir yn ystod y cyfnod hwn, sef yn benodol sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn ffordd hygyrch a sut i bwysleisio grym llenyddiaeth wrth newid bywydau er gwell. Golygodd cyrsiau rhithwir Tŷ Newydd bod modd treialu tiwtoriaid newydd, ac fe'n galluogodd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Unwaith eto eleni, fe gafodd hwyluswyr ysgrifennu creadigol gynnig comisiynau i gynnal cynlluniau lles, a'r rheini'n helpu grwpiau sy'n agored i niwed mewn cymdeithas. Cafodd y rhan fwyaf o'r cynlluniau llenyddiaeth er iechyd a lles hyn eu darparu ar blatfformau ar-lein i grwpiau. Yn eu plith, roedd pobl sy'n byw gyda phoen cronig, a ddywedodd fod mynychu'r gweithdai o'u cartrefi eu hunain wedi'i gwneud hi'n bosibl iddyn nhw gymryd rhan.

I nodi dwy flynedd ers y cyfnod clo cyntaf, ac i gofio'r rheini a fu farw yn ystod pandemig y Coronafeirws, fe aeth Llywodraeth Cymru ati i greu fideo o gerdd gomisiwn gan ein Bardd Cenedlaethol, Ifor ap Glyn. Ymddangosodd y fideo ar gyfrif Twitter y Prif Weinidog, Mark Drakeford a chafodd ei rannu gan Lywodraeth Cymru ar Facebook.

Wrth i berygl y pandemig gilio, roedd rhai cyrsiau strategol yn Nhŷ Newydd ymhlith uchafbwyntiau'r gweithgareddau wyneb yn wyneb yr oedd modd eu hailgychwyn. Roedd Llyfrau i Bawb yn gwrs preswyl pum niwrnod a gynigiwyd yn rhad ac am ddim i awduron o liw o Gymru, dan arweiniad Patience Agbabi a Jasbinder Bilan. Cwrs oedd hwn yn trin a thrafod sut i ysgrifennu i blant a phobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiadau Cymraeg nodedig hefyd, gan gynnwys digwyddiad blynyddol Cwrs Olwen mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru i enillwyr llenyddol ifanc Eisteddfod, yr Urdd, a Gŵyl Gerallt, gŵyl farddoniaeth flynyddol Cymdeithas Barddas. Lansiwyd rhaglen gyrsiau Tŷ Newydd 2022 ym mis Ionawr 2022, gan ddychwelyd i normalrwydd ar ôl gorfod gohirio'r rhaglen am ddwy flynedd.

Ymhlith yr uchafbwyntiau artistig eraill roedd gweithio gyda'r BBC ar raglenni radio Gwobr Llyfr y Flwyddyn, gan roi cynulleidfa ehangach i'r Wobr wrth i'r cyhoeddiadau gael eu darlledu i'r genedl. Mae'r ddwy enillydd, Catrin Kean a Megan Angharad Hunter, ynghyd â nifer o awduron eraill a oedd ar y rhestrau

byrion Cymraeg a Saesneg, wedi elwa o raglenni datblygu awduron niferus, ac mae'r ddwy'n rhoi astudiaethau achos inni o lwybrau datblygu awduron.

Fis Ebrill 2021, gydag arian y loteri, dechreuwyd cynllun newydd Cynrychioli Cymru, sef rhaglen ddwys dros 12 mis i ddatblygu grŵp o 12 o awduron o liw. Cyhoeddwyd y byddai nifer o fentoriaid cyffrous yn gweithio gyda'r grŵp, gan gynnwys rhai o awduron mwyaf cyffrous ac amlwg eu meysydd. Yn eu plith roedd Malika Booker, Inua Ellams, Abi Morgan, Alastair Reynolds, Manon Steffan Ros a Michael Rosen. Yn ystod y flwyddyn, agorwyd ffenestr ymgeisio ail fersiwn Cynrychioli Cymru, y tro hwn gan dargedu awduron o gefndiroedd incwm isel, a denwyd 95 o geisiadau o bob cwr o Gymru.

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd llwyddiant gyda phroses newydd a olygodd gyhoeddi galwadau agored i chwilio am ddau lysgennad diwylliannol newydd, sef Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales. Croesawyd Casi Wyn a Connor Allen i'r swyddi hyn – dau unigolyn ysbrydoledig a fydd yn sicr o danio dychymyg cynulleidfaoedd ac awduron ifanc. Bydd y beirdd plant yn gweithio mwy gyda'i gilydd na deiliaid blaenorol y swyddi, ac yn cyfrannu at feithrin cenhedlaeth iachach, mwy creadigol, a mwy amrywiol o ddarllenwyr ac awduron ledled Cymru. Byddan nhw'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy gynnal gweithdai mewn ysgolion a datblygu prosiectau llenyddol gyda phartneriaid strategol. Yn yr un modd, am y tro cyntaf erioed, cyhoeddwyd galwad agored am enwebiadau ar gyfer swydd Bardd Cenedlaethol Cymru, ac yn dilyn proses gystadleuol, rydyn ni wrth ein boddau ein bod yn cael gweithio gyda Hanan Issa rhwng 2022 a 2025.

Roedden ni'n falch iawn o allu parhau i weithio'n agos gydag Eloise Williams, y Children's Laureate Wales blaenorol, wrth iddi ddechrau ar gyfnod o flwyddyn fel awdures breswyl yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn Rhondda Cynon Taf, lle bydd hi'n gweithio gyda disgyblion sy'n byw â gorbryder a heriau iechyd meddwl eraill. Roedd y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gan First Campus, yn rhoi cyfle i Llenyddiaeth Cymru weithio'n fwy strategol gydag ysgol i gasglu mwy o dystiolaeth fanwl am fuddion cynlluniau awduron preswyl hirdymor, a gobeithiwn y bydd hyn yn ysbrydoli ysgolion eraill i gyflwyno prosiectau tebyg yn y dyfodol.


Lansiwyd dau brosiect craidd arall o'r newydd eleni, gan gynnwys y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau (y Cynllun Nawdd Awduron ar Daith gynt) a Rhestr Awduron Cymru. Nod y prosiectau hyn yw dathlu a rhoi llwyfan i awduron amrywiol Cymru a chynnig cyllid i sefydliadau llenyddol ar lawr gwlad i gynnal a chyflogi'r awduron hyn mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru.

Cynhaliwyd nifer o brosiectau mewn partneriaeth â sefydliadau cyffrous sy'n rhannu ein blaenoriaethau, gan gynnwys Natur a Ni, sef prosiect bardd preswyl ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ceisio ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr argyfwng hinsawdd; a chyfres newydd o fideos Plethu/Weave gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, sy'n cyflwyno gwaith ar cyd gan awduron a dawnswyr gan gynnwys Marged Tudur, Ffion Campbell-Davies, Jaffrin Khan, Patrick Jones, Richard Chappell, a Kai Tomioka.

Mae'r byd wedi newid yn arw dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil y pandemig, y cynnydd mewn costau byw, a'r argyfwng hinsawdd. Mae ymatebion Llenyddiaeth Cymru i'r newid hwnnw wedi amlygu'r effaith ddofn y gall ymwneud â llenyddiaeth ei chael ar awduron a chynulleidfaoedd. Mae'r ymatebion hyn hefyd wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i gyflawni ein gweledigaeth, sef byd lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau. Rydyn ni'n ffyddiog bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud, yn dorfol ac ar y cyd, yn helpu i wneud Cymru yn lle gwell, ac yn rhoi gobaith i ddyfodol y wlad a'i hawduron.

| Cathryn Charnell-White | Claire Furlong | Leusa Llewelyn |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Cyd-Brif Weithredwr Dros Dro | Cyd-Brif Weithredwr Dros Dro |

# Crynodeb o'n Perfformiad 2021/2022



# Llenyddiaeth Cymru

## Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2021/2022

**151,970**
o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi ymwneud â'n gweithgareddau (gan gynnwys yn ddigidol)

**14,264**
o dudalennau wedi'u gweld yn unigryw ar y rhan o'r wefan am ddatblygu awduron

**1,339**
o bobl wedi tanysgrifio i gylchlythyr Llenyddiaeth Cymru, 241 i'r un Cymraeg, a 1,098 i'r un Saesneg

**420+**
awr o waith hwyluso yn y sector wedi'u darparu

**375**
io unigolion, grwpiau a sefydliadau wedi cael cyllid neu gymorth nad oedd yn ariannol gennyn ni

**347**
o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron

**181**
o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol wedi'u rhoi i egin awduron


**138**
o awduron ifanc (16-30 oed) wedi cael cymorth cyson drwy ein gweithgareddau


**54**
o brosiectau dan arweiniad partneriaid wedi cael cymorth gennyn ni fel hwylusydd neu bartner eilaidd

**38**
o gomisiynau i awduron profiadol wedi'u rhoi gan eraill drwy ein hymyriadau ni


**34**
o brosiectau llenyddol sy'n cael eu harwain gan y bobl eu hunain mewn ardaloedd ble mae anghenion wedi'u cychwyn gyda'n cymorth ni

**13**
o bartneriaethau wedi'u cyfnewid ar y cyd y tu allan i Gymru




Llenyddiaeth Cymru
Gwariant ar Awduron ac Artistiaid 2021/2022
Ffioedd a threuliau eraill artistiaid
1.58%
Gwobrau
7.5%
Gwerthuso
>1%
Grantiau i unigolion a sefydliadau
30.41%
Ffioedd a threuliau awduron
60.30%
Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Iechyd a Llesiant

## Ein Blwyddyn Ni 2021-2022

Rhoddodd pandemig y coronafeirws bwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd, ac wrth roi cynlluniau adfer ar waith, gwelwyd cynnydd yn yr **ymdeimlad o unigrwydd** ymhlith pobl yng Nghymru, yn enwedig unigolion sydd â nodweddion sy'n croestorri. Roedd hynny'n golygu eu bod yn fwy tebygol o **ddioddef rhagor o annhegwch yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.** Wrth inni barhau i addasu ein gwasanaethau, roedd yn eglur bod gan y celfyddydau, a **llenyddiaeth yn benodol, gyfraniad i'w wneud wrth fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn.**

Gan fanteisio ar brofiad partneriaid, roedd modd i Llenyddiaeth Cymru helpu cymunedau sy'n wynebu risg i archwilio a deall eu hamgylchiadau, ac i feithrin gwydnwch yn hynny o beth. Roedd ein prosiect **Gwaith Comisiwn i Awduron**, mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, yn canolbwyntio ar brosiectau ysgrifennu creadigol i bobl ar incwm isel, gan roi pwyslais ar iechyd meddwl, er enghraifft. Gweithgaredd mewn partneriaeth â Mind Casnewydd, sef Darn wrth Ddarn, oedd ein gweithgaredd artistig cyntaf i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi profi trawma iechyd meddwl.

Fel nod, gellid dadlau bod modd i Iechyd a Llesiant ymddangos yn y rhan fwyaf o'n gweithgareddau, os nad ym mhob un. Gwelwyd enghraifft o hyn pan ddechreuodd ein gweithgaredd craidd, **Sgyrsiau Creadigol**, ym mis Chwefror. Dyma gyfres o ddigwyddiadau rhad ac am ddim sy'n cefnogi awduron ar thema Ysgrifennu er Llesiant.

## Strategaeth

Drwy gydnabod a deall y gwahanol ffyrdd y gall llenyddiaeth gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant y genedl, a thrwy hyrwyddo hyn ymhlith sefydliadau eraill y tu hwnt i'r sector celfyddydau, byddwn ni'n gwella bywydau pobl yng Nghymru.

## Uchafbwyntiau

| 45 | 258 | 2 |
|---|---|---|
| o sesiynau wedi'u cynnal drwy Mind Casnewydd, Sgyrsiau Creadigol ac Ar y Dibyn | o gyfranogwyr wedi'u cyrraedd drwy weithgareddau iechyd a llesiant | sesiwn hyfforddiant ac 1 sesiwn gwnsela wedi'u darparu i artistiaid |

## Gweithgaredd Nodedig: ***Ar y Dibyn***

Prosiect yw **Ar y Dibyn** sy'n cynnig cyfres o weithgareddau creadigol i unigolion y mae caethiwed yn effeithio arnyn nhw. Mae pwyslais y prosiect ar hyrwyddo hunanhyder a chreadigrwydd y cyfranogwyr, a hynny drwy gyfres o dasgau byr, llawn dychymyg. Nid oes unrhyw atebion anghywir, dim ond posibiliadau a'r cyfle i weld ochr orau pobl eraill. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan **Theatr Genedlaethol Cymru**, mewn partneriaeth â **Llenyddiaeth Cymru**, **Adra** (Tai) a'r prif artist **Iola Ynyr** gyda chymorth **Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.** Cafodd y prosiect gymorth y **rhaglen Iechyd, y Celfyddydau,**

**Ymchwil a Phobl (HARP)** yn 2021 -2022, sy'n cael ei chyllido gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Y Lab** (Prifysgol Caerdydd a Nesta).

***"A minnau'n teimlo'n ddi-hwyl, rwy'n gwybod, wrth ddod i'r sesiwn ysgrifennu, y bydda' i'n gysurus"***

- Cyfranogwr, 2021

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd **37** o weithdai fel rhan o **Ar y Dibyn,** tri ohonyn nhw ar ffurf gweithdai blasu, er mwyn i gyfranogwyr sy'n agored i niwed fanteisio ar y celfyddydau mewn amgylchedd ymlaciedig, heb bwysau. Cynhaliodd artistiaid hefyd **6** sesiwn un-i-un gyda chyfranogwyr, er mwyn canolbwyntio ar eu datblygiad artistig. Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi i artistiaid, a chynigiwyd sesiynau cwnsela yn rhad ac am ddim i'r holl staff, cyfranogwyr ac artistiaid fel rhan o'r prosiect er mwyn hybu llesiant pawb.

***"Pan fydda' i'n teimlo'n fregus, fe fydda' i'n dod yma ac yn teimlo wedi dadflino ac yn fwy bodlon fy myd, ac yn teimlo fy mod i'n gallu dygymod yn well â phethau."***

-Cyfranogwr, 2021

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Yn sgil pandemig y coronafeirws, cafodd rhai gweithgareddau fel **Darn wrth Ddarn, Mind Casnewydd,** eu gohirio neu eu rhoi o'r neilltu dros dro. Fe welson ni nad oedd rhai grwpiau sy'n agored i niwed yn addasu'n hawdd i fformat ar-lein, oherwydd y gost a phryder am gymryd rhan mewn digwyddiadau allanol. Dyma rywbeth i'w ystyried wrth gynllunio gweithgareddau i grwpiau sy'n agored i niwed yn y dyfodol.

Drwy gynllun **Ar y Dibyn,** cyflwynwyd model diogelu llwyddiannus drwy gynnig sesiynau cwnsela'n rhad ac am ddim. Serch hynny, dywedodd rhai aelodau nad oedden nhw'n teimlo'n gyfforddus yn cael y sesiynau hyn, gan fod ganddyn nhw eisoes berthynas weithio â'r cwnselydd a gynigiwyd. Yng ngweithgareddau'r dyfodol, byddwn ni'n ceisio darparu a rhoi cyngor am amrywiaeth o opsiynau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn y flwyddyn nesaf (2022/23), byddwn ni'n ceisio meithrin partneriaethau cryf â sefydliadau sy'n arbenigo mewn iechyd a llesiant (fel byrddau iechyd) er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gyfranogwyr yn cael profiad cyflawn sy'n cyfuno cyfleoedd creadigol â chymorth arbenigol.

# Plant a Phobl Ifanc

## Ein Blwyddyn Ni 2021/2022

Rydyn ni'n credu mewn meithrin cenhedlaeth iachach, mwy creadigol a mwy amrywiol o ddarllenwyr ac awduron drwy Gymru. Rydyn ni'n gwneud hyn yn bennaf drwy brosiectau **Bardd Plant Cymru** a'r **Children's Laureate Wales,** a thrwy helpu i ariannu digwyddiadau llenyddol mewn ysgolion ledled Cymru drwy ein **Cronfa Ysbrydoli Cymunedau.**

Eleni, ffarweliwyd ag **Eloise Williams** a **Gruffydd Owen** fel y Children's Laureate Wales a Bardd Plant Cymru, a chroesawyd dau fardd newydd i'r swyddi: **Connor Allen** a **Casi Wyn.**

Cafodd fformat y prosiectau ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn, a denodd y naill swydd a'r llall nifer uchel o geisiadau yn dilyn yr alwad gyhoeddus. Mae gan y Beirdd sydd wedi'u dewis ill dau genhadaeth glir ar gyfer eu cyfnodau yn y swydd, gyda'r ddau'n rhannu'r weledigaeth i ehangu'r cyfleoedd sydd gan blant a phobl ifanc i ymwneud â llenyddiaeth, a'u helpu i gael mwy o fwynhad o farddoniaeth.

## Strategaeth

Drwy roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud ag ysgrifennu creadigol a darllen, ynghyd â dangos y mwynhad a ddaw o hynny, a thrwy ddatblygu carfan o awduron ifanc talentog, byddwn ni'n cyfrannu'n sylweddol at wella bywydau a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

## Uchafbwyntiau

| | | |
|---|---|---|
| **1,100** o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Children's Laureate a'r Bardd Plant | **950** Fideos digidol Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales wedi'u gweld 950 o weithiau'n unigryw | **£1,560** wedi'i roi i helpu i hwyluso gweithgareddau llenyddol i blant a phobl ifanc drwy'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau |

## Gweithgaredd Nodedig: ***Children's Laureate Wales***

Bu'r **Children's Laureate Wales** yn gweithio mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru** i helpu i lansio ymgyrch **#GwleddyGwanwyn** yng Nghymru eleni, a hynny mewn digwyddiad yn y Senedd, ddydd Mercher, 16 Mawrth 2022. Mae'r ymgyrch flynyddol yn annog pobl i rannu'r mwynhad o gysylltu â byd natur ac i ystyried pa mor bwysig yw gofalu amdano.

I ddathlu lansiad #GwleddyGwanwyn 2022, cyfansoddodd Connor Allan, y **Children's Laureate Wales**, gerdd newydd o'r enw **'Yn yr oes sydd ohoni'.**

Cafodd y gerdd ei hysbrydoli gan weithdy gyda myfyrwyr yn Ysgol Gynradd Penyrheol yng Ngorseinon, Abertawe. Bu pedwar o'r disgyblion ifanc yn y digwyddiad yn y Senedd i glywed y gerdd yn cael ei darllen am y tro cyntaf, ac i sgwrsio â **Connor** a **Sian Lloyd** am eu profiad yn y gweithdy barddoniaeth ac yn helpu i blannu coed.

Roedd y bartneriaeth yn fan cychwyn i ymdrechion Llenyddiaeth Cymru i gynnwys yr argyfwng hinsawdd yn thematig mewn prosiectau presennol, ac i rymuso pobl ifanc i fynegi'n greadigol eu pryderon a'u gobeithion am ddyfodol ein planed.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Un o'r prif ystyriaethau dros y flwyddyn ddiwethaf oedd dysgu sut i gydbwyso gwerth cyrraedd nifer uwch o blant ar y naill law, a chynnal prosiectau mwy dwys gyda'r un grŵp o gyfranogwyr ifanc ar y llaw arall. Ochr yn ochr â hyn, fe fuon ni'n ystyried effaith amgylcheddol dau brosiect y Beirdd Plant, sy'n hanesyddol wedi annog y beirdd i deithio i bob cwr o Gymru. Gyda golwg ar hyn, mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu grŵp amrywiol o hwyluswyr gweithdai mewn ysgolion, a'r rheini wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol drwy Gymru. Fe allwn eu hyrwyddo hefyd drwy gynllun newydd **Rhestr Awduron Cymru**.

Aethon ni ati hefyd i fireinio sut rydyn ni'n dewis ysgolion ar gyfer prosiectau, gan seilio ein penderfyniadau ar ystadegau'r llywodraeth er mwyn i'n prosiectau gael mwy o effaith ac i ehangu ein cyrhaeddiad.

Cafodd ein strategaeth addysg ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth inni ddechrau datblygu **prosiect addysg newydd** mewn partneriaeth â **Llywodraeth Cymru.** Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar roi ar waith rai o'r argymhellion a geir yn **adroddiad** yr Athro Charlotte Williams OBE, gan helpu i fynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth mewn testunau gosod ac yng ngweithlu ysgolion.

# Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb
## Ein Blwyddyn Ni 2021/2022

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd cyflawni ein hymrwymiad strategol i helpu i greu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol y Gymru gyfoes yn ystyriaeth o bwys.

Yn flaenllaw yn ein rhaglen o weithgareddau roedd blwyddyn beilot **Cynrychioli Cymru,** sef ein cynllun datblygu awduron a olygai weithio'n ddwys â **12** egin awdur o liw. Ar yr un pryd, bu'r staff yn datblygu cynlluniau ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen, gan baratoi'r tro hwn i gefnogi awduron o gefndiroedd incwm isel.

Eleni hefyd cyflwynodd **Tŷ Newydd** ddau gwrs strategol – **Llyfrau i Bawb** a **Stori i Bawb** – gyda'r nod o helpu i gyflwyno mwy o amrywiaeth ymhlith awduron plant Cymru. Roedd y cyrsiau penodol hyn wedi'u dylanwadu gan yr adroddiadau Reflecting Realities, a dorrodd dir newydd drwy agor llygaid ar ystadegau brawychus ynghylch cynrychiolaeth mewn ffuglen i blant.

Roedd **Geiriau ar Gynfas** hefyd yn brosiect nodedig, gyda **Kittie Belltree**, sy'n fardd ac awdures, a **Sara Beer,** Swyddog Cenedlaethol y Celfyddydau Perfformio a'r Gair Creadigol yn Celfyddydau Anabledd Cymru, yn gweithio gyda chyfranogwyr B/byddar ac anabl i fwynhau chwarae â geiriau. Mae'r casgliad o gerddi a luniwyd ar ddiwedd y prosiect yn cynnwys gwaith gan bobl o bob cwr o Gymru a'r tu hwnt, gan ddathlu Cymru lenyddol gynrychioladol, gynhwysol. Mae modd gweld y casgliad fan hyn.

## Strategaeth

Drwy ddarparu llawer o'n gweithgareddau cyfranogol i unigolion a chymunedau sy'n arddel hunaniaeth Nodweddion Cleientiaid a Dargedir, byddwn ni'n creu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli'r Gymru gyfoes ac yn rhoi mynediad cyfartal a theg i gyfleoedd i arloesi'n artistig.

## Uchafbwyntiau

**10**
Ymgynghori â 10 awduron o gefndiroedd incwm isel wrth ddatblygu Cynrychioli Cymru #2

**38**
Treulio 38 awr o waith hwyluso yn y sector yn datblygu cynrychiolaeth a chydraddoldeb yn ein gweithgareddau a'n prosesau mewnol

# Gweithgaredd Nodedig: *Cynrychioli Cymru 2021-2022*

Rhaglen 12 mis yw Cynrychioli Cymru, sy'n cael ei hariannu gan y **Loteri Genedlaethol** drwy **Gyngor Celfyddydau Cymru** gyda'r nod o wella cynrychiolaeth yn y sector. Roedd y flwyddyn beilot yn rhoi cyfleoedd datblygu i **12** awdur o liw a oedd yn llenorion, yn ddramodwyr ac yn sgriptwyr.

I gyd, cafodd yr awduron gynnig **12** gweithdy, **4** dosbarth meistr, **6** sesiwn cwestiwn ac ateb gydag awduron amlwg, a **5** sesiwn fentora.

***"Mae'r cymorth a'r haelioni y mae Llenyddiaeth Cymru wedi'u dangos yn ystod y rhaglen wedi bod yn rhyfeddol. Mae gen i bellach Reolwr Llenyddol, ac rydw i wedi meithrin cymaint mwy o hyder wrth ysgrifennu, ynghyd â dyhead i archwilio genres newydd."***

-Emily Burnett, Aelod o Grŵp o Awduron Cynrychioli Cymru 2021-22

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gadw mewn cysylltiad bob chwarter ag aelodau'r grŵp o awduron, gan groesawu adborth am y rhaglen a diweddariad am eu datblygiad. Dywedodd **100%** o'r awduron a gafodd eu cyfweld ar ddiwedd y rhaglen fod y rhaglen wedi eu helpu i symud yn eu blaenau yn y eu gyrfaoedd fel awduron, bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth am y diwydiant, a bod eu rhwydwaith proffesiynol wedi'i ehangu.

Gwyliwch y [fideo hwn] i glywed mwy am brofiadau awduron ar y rhaglen.

Mae ein hymrwymiad i'r awduron hyn yn parhau wrth inni ganfod cyfleoedd allanol perthnasol a'u comisiynu fel rhan o brosiectau newydd Llenyddiaeth Cymru. Rydyn ni'n cydnabod mai dim ond cyfrannu at ysgogi newid yn y sector y gall Cynrychioli Cymru ei wneud, a bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol yn ymrwymiad sy'n gofyn am ymdrech barhaus ac am gydweithio.

# Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Yn sgil cyflawni blwyddyn gyntaf rhaglen Cynrychioli Cymru, dysgwyd gwersi pwysig ynghylch sut rydyn ni'n cyfathrebu'n allanol wrth wneud ein gwaith ym maes Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb. Gan weithio gyda grŵp **Riot Communications** a'r cyhoeddwyr **Lucent Dreaming**, fe wnaethon ni ddysgu mwy am bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng hyrwyddo'r rhaglen a hyrwyddo awduron unigol.

Rhoddodd y gwaith datblygu wrth baratoi at ail flwyddyn y rhaglen ddealltwriaeth ddyfnach inni o'r rhwystrau hanesyddol a strwythurol y mae awduron o gefndiroedd incwm isel yn eu hwynebu. Yn ei dro, bwydodd y gwaith ymgynghori pwysig hwn i'n strategaeth ar gyfer 2022-25 ac i weithgareddau ehangach.

Fel sefydliad, rydyn ni'n cydnabod bod angen rhoi mwy o hyfforddiant i'n staff er mwyn ein helpu i gefnogi awduron anabl mewn ffordd ystyrlon. Yn ystod y flwyddyn, cafodd staff hyfforddiant gan **Celfyddydau Anabledd Cymru** a **Taking Flight Theatre**, a byddan nhw'n parhau i ddysgu wrth inni ddatblygu cynlluniau ar gyfer fersiynau o raglen Cynrychioli Cymru yn y dyfodol.

# Diwylliant Llenyddol Cymru

## Ein Blwyddyn Ni 2021/2022

Gan fwrw ymlaen â gwaith a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, rydyn ni wedi addasu'r ffordd y mae pobl yn ymwneud â llenyddiaeth ac â digwyddiadau llenyddol. Mae'r math newydd hwn o ddarllenwyr wedi arwain at ddatblygu cynulleidfaoedd ehangach ac wedi rhoi cyfle i arddangos llenyddiaeth Cymru ar lwyfannau mwy o faint.

Yn dilyn llwyddiant cyhoeddiadau digidol blaenorol **Gwobr Llyfr y Flwyddyn**, dilynwyd yr un patrwm eleni. Cafwyd:

- **10,000** o bobl yn gwrando ar y cyhoeddiad yn fyw ar yr Arts Show ar Radio Wales neu drwy ap BBC Sounds.
- **807** o unigolion yn cymryd rhan yng Ngwobr People's Choice y Wales' Arts Review, gyda nifer o bleidleisiau rhyngwladol yn dod i law o'r UDA, Chile, Seland Newydd a Sbaen.
- **554** o unigolion yn cymryd rhan ym mhleidlais gyhoeddus Golwg 360.

Roedd modd cyflwyno cyfrolau i Wobr Llyfr y Flwyddyn o fis Tachwedd 2021, gan ystyried cyhoeddiadau drwy gydol blwyddyn galendr 2021. Mae dyddiadau pwysig y gwobrau i'w gweld **fan hyn.**

Ym mis Tachwedd, ailgychwynnodd Llenyddiaeth Cymru y **Gronfa Ysbrydoli Cymunedau**, sy'n cynnig cymorth ariannol o hyd at 50% o'r ffioedd sy'n cael eu talu i awduron am ddigwyddiadau. Mae'n galluogi mwy o bobl yng Nghymru i ganfod y mwynhad sydd i'w gael drwy gymryd rhan weithgar mewn llenyddiaeth, ond gan gysylltu, cysuro ac ysbrydoli cymunedau ar yr un pryd. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd **62** o sesiynau gan gyrraedd **689** o unigolion.

Eleni hefyd, cyhoeddwyd **2** fardd plant newydd: **Connor Allen, y Children's Laureate** a **Casi Wyn, Bardd Plant Cymru**. Mae'r ddau brosiect yn cyd-fynd â'i gilydd, a dros y ddwy flynedd nesaf bydd Connor a Casi yn cyfrannu at feithrin cenhedlaeth iachach, mwy creadigol a mwy amrywiol o ddarllenwyr ac awduron ledled Cymru. Byddan nhw'n gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc rhwng 5 ac 13 oed.

## Strategaeth

Byddwn ni'n cryfhau ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru drwy ddarparu a chefnogi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol o bwys, hwyluso gwaith comisiwn llenyddol, datblygu cyfleoedd i gael cydnabyddiaeth ehangach, a mynd ati'n bwrpasol i ddod o hyd i awduron newydd sydd â photensial i achub ar y cyfleoedd hyn, yn enwedig o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd hyn yn dathlu ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol amrywiol Cymru ar eu gorau.

## Uchafbwyntiau

| | | |
|---|---|---|
| **164** o egin awduron wedi bod yn rhan o'n prosiectau lefel uchel ers mis Ebrill 2021 | **38** o gomisiynau i awduron profiadol wedi'u rhoi gan eraill drwy ein hymyriadau ni | **13** o brosiectau wedi'u cyfnewid â phartneriaethau y tu allan i Gymru ers mis Ebrill 2021 |

## Gweithgaredd Nodedig: ***Y Bardd Cenedlaethol***

**Ifor ap Glyn** yw Bardd Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Mae'n swydd ac iddi broffil amlwg, ac mae'n cynrychioli'r genedl – ei hieithoedd a'i diwylliannau amrywiol – ac yn dathlu ysgrifennu o Gymru gartref a thramor.

Cafodd gwaith cymunedol Ifor ei ddathlu yn ystod **cyfres o ddigwyddiadau cymunedol wythnos o hyd: LleCHI.** Roedd y prosiect hwn yn dathlu diwylliant a threftadaeth ardaloedd llechi'r gogledd drwy lenyddiaeth a cherddoriaeth. Eleni, dathlodd Ifor hefyd ben-blwydd Parc Cenedlaethol Eryri yn 70 oed, a hynny drwy gyfres o gerddi comisiwn, gyda **fideo** o'r gweithiau hyn yn cyrraedd **262** o wylwyr yn ddigidol pan gawson nhw'u rhyddhau (Mai 2021).

Parhaodd y gwaith rhyngwladol wrth i **Ifor ap Glyn** ymweld â'r Almaen yn ystod blwyddyn Cymru yn yr Almaen Llywodraeth Cymru. Ymwelodd â Bonn, Marburg a Bremen. At hynny, croesawodd **Tŷ Newydd ymweliad gan y bardd Anisur Rahman,** y **Bardd Cenedlaethol Ifor ap Glyn**, a'r gydweithfa lenyddol **Write4Word**. Un o Bangladesh yw **Anisur Rahman** yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yn Sweden. Roedd yn ymweld â Chymru am wythnos i ddatblygu'r cysylltiadau cyfieithu a chyfnewid llenyddol sydd wedi'u meithrin rhwng Cymru, Sweden a phobl ar wasgar o Bangladesh dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Mae modd darllen mwy am yr ymweliad **fan hyn.**

Ers dod yn **Fardd Cenedlaethol Cymru** yn 2013, mae Ifor wedi gweithio'n ddyfal i roi llwyfan i lenyddiaeth Cymru, gartref ac yn rhyngwladol ill dau. Ym mis Ionawr 2022, cwblhaodd Llenyddiaeth Cymru alwad agored am y Bardd Cenedlaethol newydd gan ddefnyddio dull newydd, sef ffurflen ymgeisio ac enwebu. Mae modd darllen mwy **fan hyn.** Cynhaliodd Ifor brosiect olaf ei gyfnod yn y swydd yn **Nhŷ Newydd** ym mis Mawrth 2022: prosiect Sudoku Iaith, a ddaeth â **6** o feirdd sy'n ysgrifennu mewn sawl iaith wahanol ynghyd i gyfieithu barddoniaeth ei gilydd ac i drin a thrafod themâu'n ymwneud ag iaith.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Dros y flwyddyn nesaf (2022/23) byddwn ni'n parhau i ddatblygu ar lwyddiant y **Bardd Cenedlaethol, Ifor ap Glyn,** gyda'i olynydd. Daeth y dull newydd o ddefnyddio ffurflen ymgeisio ac enwebu yn broses a lyncodd lawer o amser y staff, ac mae'r adborth o'r broses wedi dangos bod ceisio sicrhau cynhwysiant drwy broses o'r fath hefyd yn creu mwy o waith i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i "brofi" eu gwerth. Dyma rywbeth y byddwn ni'n parhau i'w adolygu a'i ddatblygu.

Bydd y **Gronfa Ysbrydoli Cymunedau** hefyd yn dod yn fwy strategol ei natur wrth dargedu ardaloedd a grwpiau, gan nad yw'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau y bydd pob cymuned yn elwa o **ddiwylliant llenyddol Cymru.**

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein gweithgareddau, i sicrhau ein bod ni'n gweithio'n agos gyda chymunedau ac yn rhoi'r grym iddyn nhw deilwra digwyddiadau llenyddol a gwaith cyfranogol i gyd-fynd ag anghenion penodol yr unigolion sy'n cymryd rhan.

# Datblygu Awduron

## Ein Blwyddyn Ni 2021/2022

Awduron yw curiad calon Llenyddiaeth Cymru, ac maen nhw'n gwbl ganolog i bopeth a wnawn. Drwy gydol y flwyddyn, buon ni'n gweithio'n ddyfal i sicrhau ein bod ni'n dal i gefnogi egin awduron wrth inni dreialu a darganfod ffyrdd newydd o gynnig cyfleoedd proffesiynol a chreadigol drwy blatfformau digidol.

Fis Mehefin 2021, cynhaliwyd **Cwrs Tŷ Newydd i Egin Awduron** gyda nawdd **Ymddiriedolaeth Rhys Davies.** Cwrs i awduron o liw o Gymru oedd hwn, a **Jacob Ross** a **Désirée Reynolds** oedd y tiwtoriaid. Darparwyd y cwrs digidol pum niwrnod i **10** o awduron a'i ddilyn gyda sesiynau mentora i **6** o'r awduron er mwyn parhau i gynnig cymorth.

Mae'r staff yn dal i gyfeirio awduron at ein tudalen adnoddau, gan annog awduron i ddatblygu'n barhaus y tu hwnt i'w hymwneud cychwynnol â Llenyddiaeth Cymru.

## Strategaeth

Byddwn ni'n rhoi cyfleoedd i awduron Cymru hogi'u sgiliau a dysgu sgiliau mwy amrywiol drwy ddatblygu a darparu gweithgareddau creadigol a gweithgareddau datblygu proffesiynol sy'n cyd-fynd ag anghenion egin awduron. Byddwn ni'n rhoi gwybodaeth i awduron ac yn eu cyfeirio at gyfleoedd perthnasol eraill, ac yn canfod carfan o awduron ifanc sydd â photensial llenyddol sylweddol, gan ddatblygu eu sgiliau drwy ymyriadau hirdymor a chefnogaeth cymheiriaid.

## Uchafbwyntiau

| | | |
|---|---|---|
| **181** | **14,264** | **138** |
| o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol wedi'u darparu i egin awduron | o dudalennau wedi'u gweld yn unigryw ar y rhan o'r wefan am ddatblygu awduron | Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i 138 o awduron ifanc |

## Gweithgaredd Nodedig: ***Llyfrau i Bawb***

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru **alwad yn gwahodd awduron o liw o Gymru** i wneud cais am gyfle i gymryd rhan mewn cwrs preswyl yng **Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**. Dan arweiniad yr awduron profiadol, **Patience Agbabi** a **Jasbinder Bilan**, byddai'r cwrs yn cynnig gweithdai, sgyrsiau a thrafodaethau i helpu awduron newydd i ddatblygu gwaith ysgrifennu creadigol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dylai plant a phobl ifanc Cymru allu uniaethu â'r llyfrau maen nhw'n eu darllen, gweld teuluoedd a sefyllfaoedd sy'n debyg i'w bywydau'u hunain, a dod o hyd i bobl i'w hefelychu yn eu hoff gymeriadau. Dim ond **9%** o'r llyfrau plant a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig dros y pedair blynedd ddiwethaf sy'n cynnwys cymeriadau o liw, yn ôl adroddiad Reflecting Realities y CPLE. Mae modd darllen hwnnw **fan hyn.** Ar y cyd â phartneriaid strategol, bydd Llenyddiaeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r tangynrychiolaeth hwn yn niwylliant llenyddol Cymru drwy gynnig cyrsiau hyfforddiant a mentora, cyfleoedd i roi llwyfan, cyngor am yrfaoedd, a gwasanaeth cyfeirio i awduron sy'n cael eu tangynrychioli.

A ninnau bellach yn 2022, mae grŵp o awduron **Llyfrau i Bawb** newydd gwblhau cwrs preswyl wythnos o hyd yn Nhŷ Newydd. Yn ystod y cwrs, a gynhaliwyd rhwng 21 a 25 Mawrth, mwynhaodd yr awduron nifer o weithdai a sesiynau tiwtorial gan **Patience Agbabi** a **Jasbinder Bilan,** ynghyd â sgyrsiau prynhawn yn trafod y diwydiant cyhoeddi yng nghwmni **Simran Sandhu**, golygydd yn **Macmillan Children's Books**; **Leonie Lock**, golygydd yn **Firefly Press**; ac **Alex Wharton**, sy'n ddiweddar wedi cyhoeddi gasgliad o gerddi i blant, ***Daydreams and Jellybeans***, gyda Firefly Press.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Yn y flwyddyn nesaf (2022/23), rydyn ni'n bwriadu datblygu mwy o adnoddau i awduron, yn ogystal ag ystyried a thrafod y cwestiynau a'r rhwystrau newydd y mae awduron yn eu hwynebu yn sgil y pandemig.

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi datblygu dulliau newydd i olrhain ei waith gweithredol, fel y daflen cynllunio prosiectau, sy'n gallu dangos gweithgareddau a allai ofyn am wneud gwaith dilynol yn y dyfodol. Mae hyn yn annog rhoi cymorth i awduron y tu hwnt i'r rhaglen ei hun, gan eu cefnogi drwy gydol eu siwrneiau ysgrifennu.

Yn olaf, cafodd y staff hyfforddiant gan **Celfyddydau Anabledd Cymru**, a fu'n fodd o feithrin ymwybyddiaeth a chynghori Llenyddiaeth Cymru am sut i greu gweithgareddau hygyrch. Rydyn ni'n parhau i ddatblygu hyn ar gyfer adnoddau ar-lein hefyd, er mwyn sicrhau bod awduron o bob cefndir yn gallu achub ar ein cyfleoedd datblygu mewn ffordd gyfartal.

# Cyfranogi

## Ein Blwyddyn Ni 2021/2022

Yn ystod y flwyddyn, roedd hi'n hanfodol ein bod ni'n diwygio prosiectau wrth inni bontio yn ôl i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn bennaf, gan edrych ar ffyrdd arloesol o ymwneud ag unigolion a chymunedau drwy lenyddiaeth.

## Strategaeth

Byddwn ni'n cynyddu hygyrchedd ac effaith ysgrifennu creadigol i gyfranogwyr yng Nghymru drwy ymwneud yn uniongyrchol ag unigolion a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli mewn amrywiaeth o brofiadau diwylliannol a genres llenyddol, gan gyfeirio cyfranogwyr sydd â photensial creadigol at gyfleoedd sy'n rhan o'n gweithgareddau datblygu awduron.

Bydd hyn yn ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol drwy eu galluogi i gyfranogi'n weithgar.

## Uchafbwyntiau

| **151,970** | **347** | **8** |
|---|---|---|
| o gyfranogwyr creadigol (yn cynnwys ffigurau digidol) wedi ymwneud â'n gweithgareddau | o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron | o brosiectau ac iddyn nhw ffocws cyfranogol wedi'u darparu'n uniongyrchol neu wedi'u hwyluso gan Llenyddiaeth Cymru |

## Gweithgaredd Nodedig: ***Do You Get Me?***

Ym mis Medi 2021, dechreuodd **Eloise Williams,** awdur plant o fri a'r Children's Laureate Wales cyntaf, ar antur newydd, gyffrous fel awdur preswyl yn **Ysgol Gymunedol Tonyrefail** yn Rhondda Cynon Taf.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cafodd holl ddisgyblion Blwyddyn 8 yn yr ysgol, yn ogystal â rhai grwpiau sy'n agored i niwed ac wedi ymddieithrio mewn blynyddoedd ysgol eraill, fwynhau cyfres o weithdai darllen ac ysgrifennu creadigol gydag Eloise. Roedd yn fodd o'u ysbrydoli i ddarllen a dysgu am grefft adrodd stori, ac yn rhoi'r gofod a'r adnoddau iddyn nhw ysgrifennu eu straeon eu hunain.

Mae gan Ysgol Gymunedol Tonyrefail ddisgyblion o ardaloedd lle ceir lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae Gorllewin Tonyrefail yn safle rhif **185** ar Fynegai **Amddifadedd Lluosog** Cymru (safle rhif **1** sydd â'r amddifadedd mwyaf, a safle **1909** y lleiaf). Mae **26%** o'r disgyblion yn gymwys i gael **Prydau Ysgol am Ddim.**

Nod ehangach y prosiect, y tu hwnt i ysbrydoli a chefnogi'r bobl ifanc drwy lenyddiaeth, yw dysgu pa effaith y gall ymwneud ag awdur dros gyfnod estynedig o amser ei chael ar y myfyrwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Byddwn ni'n rhannu effaith y prosiect ag ysgolion ledled Cymru i'w hysbrydoli i edrych ar fanteision posibl penodi awduron ac artistiaid preswyl yn eu hysgolion eu hunain.

***"Fe wnes i fwynhau. Fe wnaeth imi deimlo'n well oherwydd fy mod i'n dioddef o orbryder ac rwy'n casáu sgwrsio am y peth."***

-Cyfranogwr

# Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Wrth inni bontio o weithgareddau digidol i brosiectau wyneb yn wyneb drachefn, dysgwyd gwersi pwysig yn ystod y flwyddyn. Rydyn ni'n hyderus bod ymwneud wyneb yn wyneb yn ei gynnig ei hun yn well ar gyfer prosiectau lle bydd artistiaid a hwyluswyr yn gweithio'n agos gydag unigolion sy'n agored i niwed. Cafodd ein prosiect gyda **Mind Casnewydd**, sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi profi trawma/problemau iechyd meddwl, ei ohirio dros dro yn ystod y cyfnod clo, oherwydd problemau'n ymwneud â thlodi digidol a materion diogelu. Ailgychwynnodd prosiect **Ar y Dibyn**, a ddarparwyd mewn partneriaeth â **Theatr Genedlaethol Cymru**, wyneb yn wyneb gan ennyn ymateb cadarnhaol gan y cyfranogwyr a'r hwyluswyr fel ei gilydd.

Cafwyd pwyntiau dysgu gwerthfawr hefyd wrth ail-lansio ein **Cronfa Ysbrydoli Cymunedau**, a arweiniodd at ddenu nifer sylweddol o geisiadau. Yn y dyfodol, rydyn ni'n gobeithio ymwneud â chynulleidfaoedd newydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well â'n blaenoriaethau drwy farchnata manwl, ar lefel cymunedau.
Roedd lansio ein cyfres newydd, **Sgyrsiau Creadigol**, hefyd yn ychwanegiad gwych at ein cynnig digidol. Nod y sesiynau ar-lein hyn yw rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar awduron ac ymarferwyr i weithio gyda chynulleidfaoedd amrywiol yn eu cymunedau. Yn y dyfodol, fe hoffen ni droi'r sesiynau hyn yn adnoddau parhaol a chynyddu nifer y gynulleidfa eto.

Mae datblygu mwy o ymarferwyr cymunedol yn flaenoriaeth i'r sefydliad, ac yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer prosiect newydd sydd i'w lansio fis Medi 2022 ynghyd â'n cynlluniau i helpu i hyfforddi grŵp ehangach a mwy amrywiol o hwyluswyr gweithdai mewn ysgolion.


Gweithrediadau
2021/2022
Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Codi Arian

## Strategaeth

Byddwn ni'n lleihau cyfran yr incwm sy'n deillio o gyllid cyhoeddus o 66% yn 2018/19 i 62% erbyn 2023 (mae hyn yn gyfystyr â chodi tua £465,869 mewn arian nad yw'n dod o ffynonellau cyhoeddus erbyn 2023), a hynny drwy wneud y canlynol:

- Meithrin perthnasau hirhoedlog, llewyrchus â dau Sefydliad ac Ymddiriedolaeth
- Datblygu a manteisio ar gyfres o gynlluniau partneriaethau corfforaethol
- Gwneud y defnydd gorau posibl o'n hasedau presennol, gan gynnwys creu mwy o refeniw o docynnau a nwyddau
- Sicrhau'r cyllid mwyaf posibl drwy gynulleidfaoedd.

Cafodd targedau codi arian 2021/22 eu diwygio yn ystod haf 2020 i adlewyrchu sefyllfa pandemig COVID-19. Er enghraifft, cawson ni wared ar ein targed i godi arian ar gyfer prosiectau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (£27,000) oherwydd yr ansicrwydd economaidd a oedd yn wynebu busnesau. Y targedau diwygiedig oedd codi:

- **£80,000** drwy gyrsiau masnachol, llogi lleoliadau a nwyddau
- **£124,056** drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau a'r Loteri
- **£2,500** drwy Gomisiynau Corfforaethol
- **£4,000** drwy nawdd corfforaethol
- **£2,000** drwy roddion ac ymgyrchoedd
- **£500** drwy Unigolion Gwerth Net Uchel

## Data am Berfformiad

Amharodd pandemig COVID-19 ar ein perfformiad, yn fewnol (rhaglen lai i godi arian ar ei chyfer) ac yn allanol (Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn canolbwyntio ar roi grantiau argyfwng yn unig).

Serch hynny, llwyddwyd i ragori ar yr holl dargedau. Y ffigurau terfynol oedd:

- **£92,396** drwy gyrsiau masnachol, llogi lleoliadau a nwyddau
- **£156,134** drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau a'r Loteri
- **£8,545** drwy Gomisiynau Corfforaethol
- **£5,540** drwy nawdd corfforaethol
- **£3,662** drwy roddion ac ymgyrchoedd
- **£500** drwy roddion unigol

Mae'n anodd iawn gwybod a ydyn ni ar y llwybr iawn i godi **£465,860** mewn arian nad yw'n dod o ffynonellau cyhoeddus erbyn 2023, a hynny oherwydd effaith anferth pandemig COVID-19 ar ein gwaith.

## Uchafbwyntiau

**Cyfoeth Naturiol Cymru –** Gan ddechrau ym mlwyddyn pandemig y Coronafeirws yn 2020-2021, datblygodd y bartneriaeth hon er mwyn dod â staff Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd i drin a thrafod eu profiadau yn ystod y flwyddyn mewn ffordd greadigol. Cynhaliodd **Aneirin Karadog** nifer o weithdai ar-lein gyda staff cyn cyfansoddi cerdd ffilm ddwyieithog a gafodd ei chyflwyno yn ôl fel rhan o ddiwrnod TîmCNC ar 30 Mehefin 2021. Yn dilyn llwyddiant y profiad creadigol, fe aeth Cyfoeth Naturiol Cymru ati i greu partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru er mwyn helpu i ddatblygu a darparu **Gwaith Comisiwn i Awduron 4**. O dan y rhaglen hon, bydd **8** o artistiaid yn cyflawni prosiectau llenyddol gwerth **£4,000** ar thema **Natur a'r amgylchedd er budd llesiant.**

**Gwytnwch Tŷ Newydd –** Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid cau Tŷ Newydd (sydd fel rheol yn ffynhonnell incwm sylweddol). Yn ystod 21/22, ymatebodd y tîm i gyngor y llywodraeth wrth i hwnnw newid yn gyflym tu hwnt, gan gynnig amrywiaeth o ffyrdd i ymwneud yn ddigidol neu wyneb yn wyneb pan oedd hynny'n ddiogel. Fe wnaethon ni hefyd ddechrau edrych ar bethau'n fwy masnachol a sicrhau bod yr adeilad yn codi arian i'r elusen drwy logi'r lleoliad ar gyfer gwyliau pan fyddai hynny'n briodol. Roedden ni wrth ein boddau'n croesawu grwpiau ysgolion a chyrsiau yn ôl ym mis Mawrth 2022.

## Gwersi i'w Dysgu

Mae prosesau codi arian Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn rhai gweddol ymatebol yn 21/22, gan achub ar gyfleoedd wrth i'r rheini ddod i'r amlwg, gan gynnwys rhai gan **Lywodraeth Cymru.** Er bod hyn yn wych, mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Codi Arian wedi'i lunio sy'n fwy strategol ei natur ac yn ceisio cynllunio ymhellach i'r dyfodol er mwyn gallu codi arian yn fwy effeithiol drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Rydyn ni wedi cydnabod bod angen help arbenigwyr yn y maes codi arian arnon ni, ac rydyn ni wedi gofyn am gymorth **Cause4** i greu achos trawiadol dros gael cefnogaeth ac i gysylltu â chyllidwyr newydd.

# Cyfathrebu

## Strategaeth

Byddwn ni'n gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ein rhanddeiliaid o'n gwaith drwy wneud y canlynol:

- **Mapio ein rhanddeiliaid** yn rheolaidd a datblygu **ffyrdd unigryw o gyfathrebu** â nhw, ar sail yr elfennau hynny o'n gweithgareddau a'n Blaenoriaethau Tactegol sy'n apelio fwyaf at bob grŵp o randdeiliaid
- Cynnal **ymarfer mapio ar y cyd**, gan roi darlun o'r sector cyhoeddi a'r sector llenyddiaeth ehangach yng Nghymru, er mwyn rhoi rhagor o eglurder i'n cylch gwaith a'i gyfathrebu'n well
- **Cyfathrebu ein heffaith** a'n cyrhaeddiad drwy **ymgyrchoedd strategol** a **deunyddiau hyrwyddo** newydd sy'n adrodd straeon ein cleientiaid, ac yn ei thro, ein stori ni

Ein nod yw meithrin a chryfhau ein perthnasau â'n rhanddeiliaid, boed nhw'n unigolion, yn sefydliadau neu'n grwpiau.

Ers 2020, caiff targedau Cyfathrebu sylfaenol eu dynodi bob chwarter er mwyn gallu cymharu'n gywir ar adegau pan fydd digwyddiadau amlwg yn y maes cyfathrebu yn cael eu cynnal (fel Gwobr Llyfr y Flwyddyn ym mis Mehefin/Gorffennaf).

Dyma oedd ein targedau ar gyfer pob chwarter yn 2021/22:

- Cynnydd o **25%** yn yr argraffiadau a'r cyrhaeddiad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol Llenyddiaeth Cymru
- Cynnydd o **15%** yn ein cynulleidfaoedd ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cynnydd o **10%** yn nifer tudalennau'r wefan sy'n cael eu gweld
- Cynnydd o **10%** ym mhresenoldeb Llenyddiaeth Cymru mewn digwyddiadau
- Cynnydd o **15%** yn nifer y tanysgrifwyr i gylchlythyr Llenyddiaeth Cymru
- Cynnydd o **10%** yn nifer y derbynwyr sy'n agor cylchlythyr Llenyddiaeth Cymru

## Data am Berfformiad

- Cafwyd **cynnydd o 9%** yn nifer y defnyddwyr ar ein gwefan graidd, gan ymwneud â dros **80,000** o ddefnyddwyr newydd dros y flwyddyn, a honno'n cael ei gweld mewn **177** o wledydd.
- Cyfanswm o **3,010,000** o argraffiadau ar ein cyfrifon Twitter dros y flwyddyn, a chyfartaledd o **7,900** o bobl wedi'u cyrraedd ar ein cyfrif Facebook a **1,104** wedi'u cyrraedd ar ein cyfrif Instagram bob mis.
- **1,165** o ddilynwyr newydd ar ein cyfrifon Twitter.
- Ymddangos mewn dros **30** o ddigwyddiadau proffil uchel llwyddiannus.

## Uchafbwyntiau

Eleni, cyflwynodd Llenyddiaeth Cymru ei Strategaeth Gyfathrebu newydd. A honno'n para rhwng 2022 a 2025, mae'n ddogfen **fyw** ac **ymatebol,** sy'n ceisio adlewyrchu ystwythder a hyblygrwydd y sefydliad. Mae'r strategaeth yn dangos beth mae Llenyddiaeth Cymru yn dymuno'i gyflawni drwy ei brosesau cyfathrebu, ac mae'n cyflwyno rhesymeg a thrywydd ar gyfer hynny. I gyd-fynd â'r Strategaeth Gyfathrebu, mae'r Tîm Cyfathrebu wedi creu **Pecyn Cymorth** sy'n cael ei gyflwyno i'r holl staff bob yn dipyn yn ystod y flwyddyn, law yn llaw â hyfforddiant anffurfiol. Mae hyn yn rhoi'r adnoddau y mae eu hangen i holl aelodau'r staff i'n helpu i gyfathrebu'n llwyddiannus wrth hyrwyddo ein gweithgareddau a phrif negeseuon y sefydliad.

Yn ogystal â lansio ein **Cynllun Strategol 2022-2025,** aeth y Tîm Cyfathrebu ati i ailstrwythuro gwefan Llenyddiaeth Cymru er mwyn gwella profiad defnyddwyr. Rydyn ni wedi creu llwybrau gwell tuag at wybodaeth sydd wedi'i theilwra ar gyfer nifer o randdeiliaid, a byddwn ni'n ceisio casglu data i sicrhau bod y broses o wella profiad defnyddwyr yn dal i fynd rhagddi.

Fe wnaethon ni nifer o gyhoeddiadau am y sefydliad ac am weithgareddau yn ystod y flwyddyn, gan lwyddo i gael sylw yn y wasg ar bob haen ac ar lwyfannau yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Ymhlith yr uchafbwyntiau, roedd lansio'r alwad i chwilio am unigolion newydd i wneud swyddi **Bardd Plant Cymru** a'r **Children's Laureate Wales**, cyhoeddi'r grŵp cyntaf o awduron a gefnogwyd drwy ein rhaglen **Cynrychioli Cymru**, cyhoeddiadau **Gwobr Llyfr y Flwyddyn**, enwi Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales, a llawer mwy.

## Gwersi i'w Dysgu

Rydyn ni'n dechrau gweld sut y mae newidiadau i dirlun y cyfryngau ar ôl COVID yn effeithio ar y math o sylw a faint o sylw y mae ein cyhoeddiadau yn ei gael. Nid oes gan **BBC Cymru** ohebydd y celfyddydau rhagor, ac mae patrymau gweithio gartref neu weithio hybrid yn golygu ei bod yn fwy anodd cael gafael ar newyddiadurwyr. Byddwn ni'n gweithio i ddatblygu perthnasau gwell â'r cyfryngau drwy dargedu sefydliadau ac unigolion, ac yn ystyried rhoi hyfforddiant ynghylch sut i gynnig erthyglau a rhannu straeon newyddion er mwyn cynyddu'r nifer sy'n rhoi sylw i'r rheini ac yn ymwneud â nhw.

Mae gennyn ni broses ers tro byd i sicrhau bod ein deunydd cyfathrebu yn hygyrch, ac mae ein holl alwadau, ein ffurflenni cais a dogfennau tebyg yn cael eu darparu mewn fformatau sy'n **ystyriol o ddyslecsia.** Serch hynny, ar ôl cael **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod** ym mis Mawrth 2022, rydyn ni wedi sylweddoli bod llawer iawn o hyd y gallwn ni'i wneud i sicrhau bod ein deunydd cyfathrebu yn fwy hygyrch yn gyffredinol. Dyma fydd un o flaenoriaethau'r Tîm Cyfathrebu yn ystod 2022-2023.

Mae angen inni wella ein prosesau ar gyfer casglu dadansoddiadau o'n gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol, gan edrych ar y canlyniadau i werthuso llwyddiant a chyrhaeddiad ein hymdrechion a defnyddio'r gwersi a ddysgwn yn sail i ymgyrchoedd y dyfodol. Mae'r prosesau hyn wrthi'n cael eu datblygu gyda golwg ar eu cyflwyno yn nhymor yr hydref 2022.

# Monitro a Gwerthuso

## Strategaeth

Byddwn ni'n cynyddu dylanwad allanol a mewnol data sy'n ymwneud ag effaith ein gweithgareddau drwy wneud y canlynol:

- Mynd ati'n fwy effeithiol i **gasglu, dadansoddi** a **chyfathrebu** data perthnasol o bob prosiect, gan gynnwys gweithrediadau
- **Olrhain, dadansoddi** ac **adrodd** am gynnydd yn fewnol, gan gynnwys ar lefel sefydliadol
- Dysgu o'n dadansoddiadau a bwydo hyn i mewn i'n prosesau cynllunio, gan gynnwys y broses newydd ar gyfer cynnig syniadau

Bydd hyn yn golygu bod modd datblygu ar sail gwybodaeth a chyfathrebu ein gwerth.

Dyma oedd ein targedau ar gyfer 2021/22:

- **100%** o'n data o'n prosiectau gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol wedi'u storio ar ein porth monitro a gwerthuso canolog
- **1** Adroddiad Blynyddol yn cyfathrebu ein heffaith wedi'i gylchredeg
- **12** adroddiad gwerthuso misol [a ohiriwyd dros dro] a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol wedi'u llunio
- Y syniadau ar gyfer **100%** o brosiectau newydd neu brosiectau parhaol yn cael eu cynnig i'r Uwch Dîm Arwain, a phob un yn cyfeirio at wersi i'w dysgu o'n dadansoddiadau [wedi'i ohirio dros dro]

## Data am Berfformiad

- Lluniwyd Adroddiad Blynyddol 2020-2021
- Lluniwyd 4 adroddiad gwerthuso chwarterol
- Cafodd 1 fframwaith effaith newydd ei greu ar gyfer 2022-2025

## Uchafbwyntiau

Treuliwyd talp go helaeth o'r flwyddyn yn dylunio fframwaith effaith y sefydliad ar gyfer 2022-2025. Golygai hyn ymgynghori'n fewnol, ynghyd ag â'r ymgynghorydd celfyddydau, Gerri Moriarty, i greu system newydd, symlach, fwy cydlynus, gyda phwyslais ar effaith cymdeithasol pob prosiect. Gan seilio'r gwaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n golygu bod y sefydliad ar flaen y gad wrth arwain prosesau monitro a gwerthuso yn y sector celfyddydau yng Nghymru.

Cafodd prosesau blaenorol hefyd eu hadolygu, fel ein harolwg hydredol blynyddol, y systemau i gynnig syniadau am brosiectau, cronfeydd data mewnol, a phrosesau cyfathrebu mewnol.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Gwersi i'w Dysgu

**Fframwaith Effaith**

Drwy gyflwyno a rhoi ar waith Strategaeth Monitro a Gwerthuso 2019/22, bu modd inni ganfod y prif elfennau yn y fframwaith a oedd yn gweithio'n dda, ynghyd â phethau nad oedd yn gweithio cystal. Ar ôl ymgynghori yn fewnol ac yn allanol, daeth yn eglur mewn dim o dro bod angen inni gael dull symlach, haws i'w ddefnyddio. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y fframwaith effaith yn cyd-fynd â'r calendr Cyfathrebu, er mwyn osgoi dyblygu cynnwys. Fe wnaethon ni weithio'n galed, gan hynny, i greu proses glir sy'n creu llinyn cyswllt rhwng casglu data a chyfathrebu allanol.

**Cyfathrebu Mewnol**

Fe wnaethon ni adolygu'r system ar gyfer cynnig syniadau am brosiectau, a datblygu ffyrdd newydd o roi gwybod am wersi i'w dysgu yn y tîm. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyflwyniadau sy'n gwerthuso prosiectau a'r rheini'n cael eu rhoi yn ystod cyfarfodydd staff ac yn ystod ein Cyfarfodydd Creadigol misol.

# Tŷ Newydd 2021/22

## Strategaeth

Ein nod, fel yr amlinellir yng **Nghynllun Strategol 2019/22**, oedd cynyddu'r incwm sydd heb fod yn arian cyhoeddus a gaiff ei greu drwy weithgareddau **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** o **£181,904 yn 2018/19** i **£199,000 erbyn 2022.** Rhagorwyd ar y nod hwn yn 2019/20, ond rhoddodd pandemig COVID-19 stop ar y rhan fwyaf o weithgareddau creadigol 2020/21 a 2021/22, gyda drysau'r ganolfan ar gau am y rhan helaethaf o'r ddwy flynedd.

Wrth i'r ganolfan gau ei drysau oherwydd cyfnod clo COVID-19 ar drothwy blwyddyn ariannol 2020/21, bu'n rhaid newid ein strategaeth dros nos. Ar ôl gohirio ein rhaglen o gyrsiau yn 2020/21, y pwyslais bellach oedd gwarchod a diogelu'r staff a'r adeilad, a lleihau pob gwariant diangen fel na fyddai'r ganolfan yn dod yn faich ariannol i'r sefydliad. Datblygwyd **gweithdrefnau iechyd a diogelwch** newydd wrth ragweld y byddai modd ailagor, a threfnwyd i'r adeiladau gael eu llogi wrth i gyfyngiadau'r cyfnodau clo gael eu llacio, a hynny i greu incwm pan oedd hynny'n bosibl. Pan oedd cyfyngiadau'r cyfnodau clo wedi'u llacio, bu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, gydag **Encil Awduron Nant** yn llawn drwy gydol chwarter 2. Fe wnaeth Encil Awduron Nant greu **£28,821** mewn incwm anghyfyngedig yn ystod 2021/22, tra creodd Tŷ Newydd **£55,170** mewn incwm anghyfyngedig yn yr un cyfnod, er gwaethaf y ffaith bod y sefyllfa'n dal i ymyrryd ar y busnes.

Datblygwyd rhaglen o gyrsiau rhithwir i sicrhau ein bod yn parhau i ymwneud â chynulleidfaoedd i ddatblygu awduron, gan gynnig gwaith am dâl i diwtoriaid llawrydd ar yr un pryd. Rhoddodd y cyrsiau rhithwir peilot hyn gyfle i staff ddysgu gwersi amhrisiadwy wrth gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chynyddu hygyrchedd ein cynnig – rhywbeth rydyn ni'n gobeithio'i wneud yn ystod 2022 a'r tu hwnt.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i gynnal rhai **cyrsiau strategol** (gweler yr uchafbwyntiau isod), ac wrth ragweld blwyddyn well, lansiwyd rhaglen lawn o gyrsiau ym mis Ionawr 2022, i'w cynnal drwy gydol y flwyddyn. Ym mis Mawrth 2022, fe **agorwyd ein drysau** yn iawn drachefn, ar ôl i'r rheini fod ar gau am ddwy flynedd, wrth groesawu dau grŵp ysgol i'r ganolfan.

## Data am Berfformiad

- Roedd o leiaf **88.8%** o fynychwyr cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awduron, a dywedodd **100%** y byddan nhw'n dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol.
- Elwodd **18** o awduron o encil yn Nant, gydag **1** cyfnod yn cael ei roi ar ffurf ysgoloriaeth i awdur ar incwm isel.
- Llwyddwyd i roi cyfle ar lefel uchel i **9** o egin awduron, dros **5** cwrs.
- Cymerodd **34** o gyfranogwyr ran yn **encilion addysg Tŷ Newydd**, ac un o'r rhain oedd **Cwrs Olwen** i **12** o bobl ifanc a oedd wedi dod i'r brig yn **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**.
- Bu **60** o awduron ar **gyrsiau digidol Tŷ Newydd.**

## Uchafbwyntiau

- Golygodd ailagor y ganolfan hefyd fod modd i grŵp o awduron **Cynrychioli Cymru 2021-22** gyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf, a hynny ar gyfer eu dosbarth meistr olaf gyda'r tiwtor **Jacob Ross** a'r siaradwr gwadd, **Patience Agbabi.** Llwyddodd y penwythnos i ddyfnhau'r cyfeillgarwch oedd wedi datblygu rhwng aelodau'r criw yn ystod blwyddyn o weithgareddau digidol, gan ddangos y cysylltiadau gwell a hirdymor y gellir eu meithrin drwy gyfarfod wyneb yn wyneb.
- Tra bo'r ganolfan ar gau yn sgil COVID-19, gohiriwyd y rhan fwyaf o'r gwaith adnewyddu. Serch hynny, cafodd **4** ystafell ymolchi ac **1** toiled cyhoeddus yn y ganolfan eu hadnewyddu i safon uchel yn ystod y cyfnod uchod.
- Cafodd Llenyddiaeth Cymru ei dderbyn, drwy broses gais, yn rhan o **Academi Ddigidol Werdd Grŵp Llandrillo Menai**, er mwyn elwa o ymgynghori rhad ac am ddim a chynllun gweithredu i weithio tuag at sicrhau **statws carbon niwtral**.
- Cynhaliwyd ein cwrs dydd cyntaf ers y cyfnod cyn y pandemig ym mis Mawrth gyda **7** o gyfranogwyr. Roedd **5** o'r rheini'n bresennol yn Nhŷ Newydd a **2** yn cymryd rhan yn rhithwir, gan ddangos bod yr angen a'r galw am ein darpariaeth yn dychwelyd.
- Fe aethon ni ati'n bwrpasol i gyfrannu at greu cynrychiolaeth fwy cyfartal yn niwylliant llenyddol Cymru gyda chyrsiau fel ein cwrs Llyfrau i Bawb, lle bu **8** o awduron o liw yn datblygu eu hysgrifennu creadigol i blant a phobl ifanc.
- Dychwelodd ein cyrsiau digidol poblogaidd, gan roi cyfleoedd datblygu i awduron ym mhob cam yn eu gyrfaoedd llenyddol. Ymunodd cyfranogwyr o sawl cwr o'r byd, gan gynnwys **Iwerddon, Canada, Patagonia** ac **Awstralia.** Gwahoddwyd egin awduron hefyd i fod yn diwtoriaid ar rai o'n cyrsiau digidol, gan gyfrannu felly at ein nodau datblygu awduron.
- Cynigiwyd encil dros benwythnos, ar ffurf cyfraniad nad oedd yn ariannol, i **10** o egin awduron a oedd wedi cydweithio ar gyfres o lyfrau i oedolion ifanc o'r enw **Y Pump,** a gyhoeddwyd gan **Y Lolfa**. Mae gan brif gymeriadau'r llyfrau hyn nodweddion sy'n cael eu tangynrychioli. Roedd y rhan fwyaf o'r awduron yn cwrdd am y tro cyntaf, ar ôl cydweithio'n rhithwir ar y llyfrau yn ystod y cyfnod clo, a chawson nhw gopïau cyntaf eu llyfrau yn Nhŷ Newydd.
- Ymwelodd **Gŵyl Gerallt Barddas** â Llanystumdwy fis Hydref 2021 Roedd Tŷ Newydd yn falch dros ben o fod yn croesawu'r ŵyl, ynghyd â **Menter y Plu** a **neuadd y pentref.** Roedd y penwythnos yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau fel darlithoedd, gweithdai, lansiadau llyfrau, a digwyddiad blynyddol ***Ymryson y Beirdd***. Rydyn ni'n gobeithio y bydd Gŵyl Gerallt yn dychwelyd eto yn y dyfodol.
- Dychwelodd **Cwrs Olwen,** ein cwrs blynyddol i bobl ifanc sydd wedi cael llwyddiant yng nghystadlaethau ysgrifennu **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd,** ym mis Rhagfyr 2021, ar ôl saib yn sgil y pandemig. Roedd **12** o awduron ifanc yn bresennol, ac fe gawson nhw'u tiwtora'n wych gan **Llyr Gwyn Lewis,** sydd wedi cymryd rhan yng **Nghwrs Olwen** ei hun yn y gorffennol, ac **Angharad Price.** A ninnau bellach yn 2022, dywedodd un o enillwyr yr Urdd eleni mai'r unig reswm iddo gystadlu eto oedd gan iddo fwynhau ei gyfnod yn Nhŷ Newydd cymaint.
- Parhaodd **Encil Awduron Nant** i ddenu archebion gan awduron a phobl greadigol a oedd am ddod o hyd i le tawel i ganolbwyntio ar eu gwaith creadigol. Cafodd y bwythyn adolygiadau rhagorol am ei gyfleusterau a'r gwaith adnewyddu diweddar.

# Gwersi i'w Dysgu

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni ddechrau defnyddio model hybrid ar gyfer ein darpariaeth, gan gynnal ein cwrs cyntaf gyda chyfranogwyr wyneb yn wyneb a chyfranogwyr rhithwir ill dau. Byddwn ni'n parhau i adolygu pa mor effeithiol yw'r math hyn o gyrsiau i'r holl gyfranogwyr, a pha effaith y maen nhw'n ei chael, er mwyn sicrhau bod ein cyrsiau'n cefnogi cynifer o unigolion â phosibl. Wrth weithio o dan gyfyngiadau COVID-19, fe amlygwyd rhai problemau staffio yn y cyfnod hwn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n lliniaru'r risg hon drwy gyflogi a hyfforddi mwy o aelodau o staff, a fydd yn gallu camu i'r adwy pan fydd staff yn sâl neu ar wyliau. Bydd gan Dŷ Newydd apêl fasnachol o hyd drwy'r gallu i'w logi ar gyfer gwyliau yn ystod cyfnodau tawelach, er mwyn gwneud y busnes yn fwy hyfyw drwy ddenu ffrydiau ariannu nad ydyn nhw'n rhai cyhoeddus. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n parhau i ystyried gwneud addasiadau amgylcheddol i'r ganolfan gyda golwg ar ddod yn sefydliad carbon niwtral.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Adnoddau Dynol

## Strategaeth

Ein hamcanion ym maes adnoddau dynol, o dan gynllun strategol 2019/22, yw:

- **100%** o'r staff wedi mynychu o leiaf **3** sesiwn hyfforddiant i'r holl staff bob blwyddyn
- O leiaf **4** aelod o staff i elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) bob blwyddyn
- Sgoriau boddhad y staff â'u swyddi wedi cynyddu o leiaf **25%**
- Bod o leiaf **7%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; bod gan **10%** anableddau neu salwch hirdymor, a bod **20%** o gefndir incwm isel. Bydd **1** aelod o'r staff ar lefel uchel ac **1** aelod o'r Bwrdd yn arddel nodweddion cleientiaid a dargedir (pan fydd llefydd gwag ar gael)
- Byddwn ni wedi gweithio gydag o leiaf **20** gwirfoddolwr bob blwyddyn

Diben y nodau hyn yw creu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol yn Llenyddiaeth Cymru, gan sicrhau bod gennyn ni'r sgiliau iawn, y swyddi iawn a'r strwythurau iawn i gyflawni ein cenhadaeth yn effeithiol.

## Data am Berfformiad

- Mae **100%** o'r staff wedi mynychu o leiaf **6** o sesiynau hyfforddiant i'r holl staff yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod.**
- Mae o leiaf **4** aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus gan gynnwys ein **Prentis Cadw Llyfrau** sy'n astudio at arholiadau'r AAT. Mae **3** aelod o staff hefyd yn mynychu **dosbarthiadau Cymraeg** rheolaidd.
- Yn ystod 21/22, ni wnaethon ni fesur boddhad y staff â'u swyddi ar ffurf canran, ond fe ganolbwyntiwyd yn hytrach ar gynnal sgyrsiau â staff am eu llesiant, ac am ddygymod â'r pandemig yn enwedig. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi sgwrsio am sut i ddatblygu arferion gweithio hybrid sydd o fudd i'r busnes ac i unigolion.
- Dros y cyfnod hwn, roedd **13.8%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, ac roedd gan **0%** anableddau. Mae tri o'r unigolion hyn yn aelodau o'n Bwrdd.
- Fe wnaethon ni weithio gyda **7** gwirfoddolwr yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn is na'r targed oherwydd effaith Covid-19 a llai o weithgarwch wyneb yn wyneb.

## Uchafbwyntiau

Am y tro cyntaf, fe wnaethon ni gynnig cyfweliad sicr i ymgeiswyr a oedd o gefndir lleiafrif ethnig neu gefndir incwm isel, neu i ymgeiswyr a oedd yn byw gydag anabledd neu salwch cronig, os oedden nhw'n bodloni anghenion sylfaenol y swydd. Dysgwyd llawer o'r broses hon. Yn gyntaf, fe gawson ni fwy o ymgeiswyr nag o'r blaen a oedd yn bodloni'r anghenion hyn (**77%** o'r ymgeiswyr am swydd y Cydlynydd Creadigol, a **50%** o'r ymgeiswyr am swydd yr Arweinydd Creadigol), sy'n dangos bod pobl na fyddai gan amlaf wedi ymgeisio wedi gwneud hynny. Roedd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld felly yn fwy amrywiol, a dywedodd aelodau'r panel eu bod wedi cael eu synnu ar yr ochr orau gan rai o'r ymgeiswyr, a wnaeth well argraff yn y cyfweliad nag yn y cais ysgrifenedig. Mae hyn yn dangos ein bod wedi diystyru ymgeiswyr da yn y gorffennol cyn rhoi cyfweliad iddyn nhw. Yn olaf, ar ddiwedd y broses recriwtio, roedd gennyn ni ddau aelod newydd o'r tîm a oedd yn dod o gefndiroedd Du Affricanaidd a chymysg – gwyn/Indo-Garibïaidd. Maen nhw wedi dod â phrofiad helaeth i'r tîm, ac yn ddau lais cryf, newydd a fydd yn cyfrannu at ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y strwythur rheoli llinell ei addasu'n sylweddol i sicrhau nad oedd un rheolwr unigol yn gyfrifol am ormod o bobl. Rhoddwyd ystyriaeth gytbwys i natur swyddi a pherthnasau personol, gan roi'r gallu i'r holl staff gael eu rheoli gan bobl roedden nhw'n gyfforddus yn trafod eu llesiant â nhw.

## Gwersi i'w Dysgu

Yn nhymor yr hydref 2021, daeth yr adolygiad sefydliadol a ddechreuwyd cyn y pandemig i ben. Y dasg olaf oedd newid teitlau swyddi, ac nid oedd pawb yn croesawu hyn. Mae'r cyfan bellach wedi'i ddatrys, a phe bai'n digwydd eto, mae'r tîm arwain wedi dysgu llawer am reoli ymatebion emosiynol, gwrando, a delio'n gyflymach â sgyrsiau anodd.

# Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector

## Y Strategaeth

Byddwn ni'n cynyddu ein hymwybyddiaeth o adborth a gawn gan sector llenyddol Cymru a'r tu hwnt, yn ogystal â'n hymateb iddo, drwy wneud y canlynol:

- Gwreiddio'r gwaith o **ymgynghori â rhanddeiliaid** yn ein cylch blynyddol, ac **ehangu'r rhwydwaith** o randdeiliaid rydyn ni'n ymgynghori â nhw
- Mynd ati'n systematig i sicrhau bod data a gwaith dadansoddi yn **llifo rhwng** rhanddeiliaid, staff a Chyfarwyddwyr
- **Olrhain** y broses o wneud penderfyniadau doeth ar bob lefel, gan gynnwys syniadau sy'n cael eu cynnig am brosiectau a chofnodion cyfarfodydd

## Data am Berfformiad

Yn 2021/22:

- Cynhaliwyd **61** o gyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli, **52** cyfarfod o'r Uwch Dîm Arwain – Gweithrediadau, ac **13** diwrnod Cynllunio Creadigol i'r holl staff.
- Cynhaliwyd **21** o gyfarfodydd â Ffrindiau Beirniadol i helpu gyda'n cyfeiriad strategol a'n penderfyniadau ar lefel uchel
- Ymatebodd **148** o unigolion i'n Harolwg Rhanddeiliaid a oedd yn rhoi adborth am ein perfformiad hyd yma
- Ymatebodd **1000** o unigolion i'n harolwg Cyflwr y Genedl a oedd yn ceisio ein helpu i ddeall arferion darllen ac ysgrifennu'r genedl

## Uchafbwyntiau

Yn haf 2021, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru ei brosiect ymchwil ***Cyflwr y Genedl*** cyntaf, a edrychai ar arferion darllen ac ysgrifennu poblogaeth Cymru. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn helpu Llenyddiaeth Cymru, ynghyd â sefydliadau llenyddol eraill, i ddarparu gweithgareddau a chynnwys sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd yng Nghymru.

Cafodd y gwaith ymchwil ei gyflawni mewn partneriaeth â **Strategic Research & Insight**, asiantaeth ymchwil a gwerthuso brofiadol o Gaerdydd. Holwyd dros **1000** o bobl Cymru fel rhan o'r arolwg, gan roi cyfwng hyder o **±3.1%.** Defnyddiwyd strategaeth samplo haenedig cyfraneddol – sy'n golygu ein bod wedi monitro ymatebwyr yn unol â ffactorau demograffig i sicrhau eu bod yn gyfraneddol, yn fras, i ddemograffeg yr holl boblogaeth (a gan hynny, bod y canlyniadau'n gynrychioladol o'r holl boblogaeth).

Rhoddodd hyn wybodaeth ddiddorol iawn inni am arferion darllen ac ysgrifennu'r genedl. Er enghraifft, roedd **40%** o ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o ysgrifennu creadigol dros y flwyddyn ddiwethaf. Y ffurfiau mwyaf poblogaidd oedd cadw dyddiadur (**18%**), ysgrifennu ysgrifau (**9%**) ac ysgrifennu barddoniaeth (**9%**). Fe wnaethon ni ddysgu mai'r lleoliad (**45%**) a'r gost (**40%**) oedd y rhwystrau pennaf a wynebai pobl wrth fynychu digwyddiadau llenyddol, felly fe allwn ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu ni a sefydliadau llenyddol eraill i ddatblygu digwyddiadau sy'n ateb anghenion y cyhoedd yn well.

# Gwersi i'w Dysgu

Ers lansio Cynllun Strategol 2019/2022, rydyn ni wedi ceisio olrhain yr effaith hirdymor rydyn ni'n ei chael ar ein cleientiaid. Fodd bynnag, penderfynwyd rhoi'r Arolwg Hydredol o'r neilltu am y tro, oherwydd effaith pandemig COVID-19. Byddwn ni nawr yn ailwerthuso ein dull o olrhain y newidiadau hirdymor rydyn ni'n eu creu i'n cleientiaid wrth inni ddatblygu ein Cynllun Strategol newydd.

Fe wnaethon ni ddysgu llawer am fanteision ac anfanteision cynnal prosesau llywodraethu ac ymgynghori â'r sector yn rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Er inni ganfod bod y perthnasau a fodolai'n barod yn ffynnu, a'n bod yn gallu cael cyswllt mwy rheolaidd, bu datblygu perthnasau newydd yn dalcen caletach. Rydyn ni wedi penderfynu canolbwyntio ar hyn yn 22/23 wrth i'r byd ailagor, ac rydyn ni wedi sicrhau ein bod ymwneud â rhanddeiliaid yn dal yn amlwg ar holl restrau tasgau'r Uwch Dîm Arwain.

# Hwyluso yn y Sector

## Strategaeth

Byddwn ni'n cynyddu ein cefnogaeth i'r sector llenyddiaeth ehangach drwy wneud y canlynol:

- Darparu llai o weithgareddau'n uniongyrchol, drwy ddarparu dim mwy na 10 prosiect bob blwyddyn.
- Canolbwyntio mwy ar ein gwaith fel hwyluswyr neu bartneriaid gyda'r rheini sydd eisoes yn gweithio yn y maes hwn neu'n newydd iddo
- Mynd ati i chwilio am sefydliadau celfyddydol llai, ac artistiaid, ymgyrchwyr cymdeithasol, a gweinyddwyr arloesol ym maes y celfyddydau, gan ddarparu ein harbenigedd ar ffurf cymorth nad yw'n ariannol
- Ysgogi darpariaeth lenyddol newydd drwy dargedau eraill ar gyfer hwyluso yn y sector yn 2020/21, a'r rheini wedi'u diwygio i adlewyrchu pandemig COVID-19.
- Rhoi cefnogaeth helaeth i o leiaf 30 o brosiectau bob blwyddyn sy'n cael eu harwain gan bartneriaid, a ninnau'n hwyluso neu'n bartner eilaidd, a rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 70 prosiect arall.
- Rhoi cyllid a/neu gymorth nad yw'n ariannol i o leiaf 700 o unigolion, grwpiau a sefydliadau bob blwyddyn
- Ysgogi o leiaf 10 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, mewn ardaloedd lle mae anghenion

## Data am Berfformiad

Yn 2021/2022:

- Darparodd Llenyddiaeth Cymru **7** o brosiectau'n uniongyrchol
- Darparwyd **dros 240** awr o waith hwyluso i'r sector
- Cafodd **375** o grwpiau, unigolion a sefydliadau gymorth drwy waith hwyluso
- Rhoddwyd cefnogaeth hwyluso helaeth neu gymorth drwy fod yn bartner eilaidd i **34** o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid, a rhoddwyd cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i **20** prosiect
- Cafodd **34** o brosiectau llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, eu cyflwyno mewn ardaloedd lle mae anghenion

## Uchafbwyntiau

- Yn sgil ein cymorth dwys, cafodd prosiect **Ar y Dibyn** gyllid allanol ar gyfer prosiect llenyddol mewn ardal lle mae anghenion.
- Fe gyfrannwyd at sgyrsiau ehangach am ddiwylliant yng Nghymru, er enghraifft drwy gyfrannu at strategaeth newydd **Caerdydd Ddwyieithog 2022-27**
- Datblygwyd partneriaethau â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion**, a hynny'n arwain at **waith comisiwn i awduron.**

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Gwersi i'w Dysgu

Roedd y diffiniad o hwyluso yn dal i achosi rhywfaint o ddryswch i staff, ac o ganlyniad, adolygwyd y system a datblygu **log cymorth** newydd, gyda diffiniadau clir ynghylch yr hyn y gellid ei gynnwys. Bu anghysondebau wrth adrodd am waith hwyluso, ac felly rydyn ni dechrau defnyddio model 'amser fel gwerth', lle gall system sy'n defnyddio codau ddangos faint o amser staff sy'n cael ei dreulio yn rhoi gwybodaeth neu'n casglu gwybodaeth. Rydyn ni bellach yn defnyddio amcanion CAMPUS ar y log ar gyfer sicrhau canlyniadau, fel ei bod hi'n haws i'r staff gydnabod cyfleoedd sydd wedi dyddio neu wedi'u colli.

# Risgiau

## Strategaeth

Yn 2019/22, mae angen inni greu diwylliant sy'n fwy ymwybodol o risg ar bob lefel ymhlith y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno system newydd i reoli risgiau, a honno'n cyd-fynd â'n Colofnau Gweithgaredd, er mwyn canfod ac asesu'r bygythiadau a'r cyfleoedd yn barhaus
- Dynodi graddfa lithro ar gyfer cyfrifoldebau rheoli risgiau ymhlith Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r staff
- Adolygu a rhoi sylw i bob risg a'r tactegau lliniaru cysylltiedig, a hynny'n rheolaidd ac yn systematig
- Asesu ein parodrwydd i dderbyn risgiau yn flynyddol

## Uchafbwyntiau

Yn ystod 2021/22, fe wnaethon ni wella ein Cofrestr Risgiau drwy wahanu risgiau lefel uchel a risgiau ar lefel prosiectau. Mae staff gweithredol a rheolwyr bellach yn cael eu hannog i asesu a datblygu prosiectau gyda risgiau mewn golwg, tra bo'r Uwch Dîm Arwain yn gwirio ar hap ar lefel prosiectau i ddod o hyd i risgiau sy'n ymddangos dro ar ôl tro.

Mae gwahanu'r risgiau yn y fath fodd yn ei gwneud hi'n haws i'r Uwch Dîm Arwain ganfod camau lliniaru yn gynt. Mae nodau CAMPUS wedi'u cyflwyno fel rhan o'r tactegau lliniaru, i sicrhau bod y staff sy'n gwirio ar hap yn gallu canfod unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd, yn ogystal â gofyn am ddiweddariadau am gamau gweithredu nad ydyn nhw wedi cael eu cymryd. O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn cael gweld risgiau Ambr a Choch, ond hefyd y tactegau na chafodd eu rhoi ar waith i liniaru'r rheini, sy'n rhoi darlun cliriach, mwy cyflawn o'r sefyllfa.

Ym mhedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol hon, dechreuwyd rhoi'r broses wahanu hon ar waith (gwahanu risgiau lefel uchel a risgiau ar lefel prosiectau), gan gyflwyno'r Uwch Dîm Arwain i'r egwyddor liniaru, "pe bai". O dan y system hon, mae'r staff yn cael eu hannog i ailasesu'r sgôr cynhenid a'r sgôr dilynol ar gyfer yr effaith er mwyn canfod, pe bai'r holl dactegau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, a yw'r risg yn lleihau. Mae hyn yn galluogi'r Uwch Dîm Arwain i weld sawl gweithgaredd/sawl rhan o'r busnes sydd â risgiau cynhenid ynghlwm wrthyn nhw.

## Gwersi i'w Dysgu

Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn rheoli nifer llai o risgiau sefydliadol, ac er eu bod yn dal i fwrw golwg ar risgiau ar lefel prosiectau, cyfrifoldeb y staff ar lefel weithredol fydd hyn yn bennaf.

Mae proses y dangosfwrdd risgiau yn parhau, a bydd y Bwrdd yn cael diweddariadau chwarterol am y risgiau Coch ac Ambr a'r tactegau lliniaru na chafodd eu rhoi ar waith, gan sicrhau trefniadau llywodraethu mwy effeithiol.

# Cyllid

## Strategaeth

Byddwn ni'n gwella ein cadernid ariannol ac yn cyflwyno mwy o amrywiaeth i ffrydiau cyllido drwy wneud y canlynol:

- Cynnal ac addasu ein gweithdrefnau a'n prosesau rheoli ariannol yn dilyn pandemig COVID-19
- Cyfuno adnoddau wrth ymateb i bandemig COVID-19 ac ailddosbarthu cyllid i gael yr effaith fwyaf bosibl
- Modelu cyllidebau ar gyfer amryw o senarios, h.y. llacio/ailgyflwyno cyfyngiadau'r llywodraeth
- Penodi Prentis Cadw Llyfrau a fydd yn cael hyfforddiant AAT
- Diweddaru'r Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithiol
- Cyflwyno polisïau ar gyfer Defnyddio Cardiau Credyd a Buddsoddi

## Data am Berfformiad

Yn 2021/22

- Cynhyrchwyd **4** adroddiad cyfrifon gyda modelu senario
- Apwyntiwyd **1** Prentis Cadw Llyfrau ym mis Medi 2021
- Cyflwynwyd **1** polisi Gwrth-Dwyll newydd yn ystod y diweddariad blynyddol, a darparwyd hyfforddiant i staff

## Uchafbwyntiau

Yn ystod 2021/22, parhaom i ddefnyddio modelu senario i'n galluogi i gynllunio ar gyfer canlyniadau amrywiol. Mae Ymddiriedolwyr ac yr Uwch Dim Rheoli wedi ymateb yn ffafriol i gynnwys y senarios o fewn y cyfrifon chwarterol, felly byddwn yn parhau i'w llunio ar gyfer pob cyfarfod chwarterol. Byddant yn canolbwyntio ar unrhyw broblemau posib e.e. cynnydd mewn prisiau ynni, a llai o fynd ar gyrsiau gan fod y cyhoedd yn lleihau eu gwariant.

Mae apwyntiad y Prentis Cadw Llyfrau ym mis Medi wedi ein galluogi i rannu cyfrifoldebau ac o ganlyniad i hyn cryfhau ein rheolaeth ariannol mewnol.

Cyflwynwyd polisi Gwrth-Dwyll i sicrhau bod staff yn ymwybodol o fygythiad twyll a'r camau i'w cymryd os yw twyll yn cael ei ganfod. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn i ni allu parhau i fod yn wydn yn ariannol ac wrth wynebu heriau'r dyfodol. Ochr yn ochr â'r polisi Gwrth-Dwyll, fe ddiweddarwyd y polisi Cronfeydd wrth gefn gyda'n cronfeydd dynodedig yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn briodol.

Yn ystod y chwarter olaf y flwyddyn ariannol, trosglwyddom ein system cyfrifon yn llwyddiannus i fersiwn wedi ei storio ar y cwmwl. Er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, cwblhawyd y gwaith ym mis Mawrth. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn prosesu trosglwyddiadau ariannol mewn modd mwy effeithlon. Yn ystod y cyfnod hwn mi wnaethom hefyd gyflwyno templed cyllidebau newydd i staff eu defnyddio wrth gynnal eu prosiectau. Bydd y cyllidebau newydd hyn yn galluogi staff i groesgyfeirio rhwng adroddiadau cyfrifon a chofnodion eu hunain. Byddant hefyd yn galluogi aelodau eraill o'r tîm i ddeall yn sydyn datblygiad prosiect os yw Arweinydd y Prosiect i ffwrdd am gyfnod estynedig.

# Ein Partneriaid

# Strwythur, Llywodraethu & Rheoli 2021/2022



**Dogfen Llywodraethu**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig, a ymgorfforwyd ar 19 Medi 2011 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 23 Mawrth 2012. Sefydlwyd y cwmni dan Fmorandwm Cymdeithasu a bennodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac fe'i llywodraethir o dan ei Erthyglau Cymdeithasu, a ddiweddarwyd yn 2019/2020.

**Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd**

Penodir ymddiriedolwyr newydd yn Gyfarwyddwyr ar y sefydliad ar ôl proses recriwtio agored a thryloyw, a diffinnir y broses honno yn yr Erthyglau Cymdeithasu. Penodir ymddiriedolwyr i gryfhau'r sgiliau a'r profiadau a gynrychiolir ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Bydd pob ymddiriedolwr newydd yn cael pecyn cynefino a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, ynghyd â hyfforddiant ym maes llywodraethu elusennol.

**Strwythur y sefydliad**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain Llenyddiaeth Cymru, a'r Cyfarwyddwyr hefyd yw ymddiriedolwyr y sefydliad. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y sefydliad ac am gynllunio ariannol cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd i'r tîm gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr(wyr Dros Dro), sy'n cael ei/eu c(h)efnogi gan Uwch Dîm Arwain sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion strategol a thargedau eraill.

**Staff Rheoli Allweddol**

Staff Rheoli Allweddol y sefydliad yw'r Prif Weithredwyr Dros Dro, Claire Furlong a Leusa Llewelyn; y Rheolwr Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Cwmni, Alys Lewin; a'r Rheolwr Cyllid, Emma Richards. Mae tâl y Staff Rheoli Allweddol yn cael ei osod a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan Gadeirydd y Bwrdd ac mae'n dilyn strwythur bandiau cyflog y sefydliad.

**MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDU**

| | |
|---|---|
| **Enw Elusen** | Llenyddiaeth Cymru \| Literature Wales |
| **Rhif cofrestru'r elusen** | 1146560 |
| **Rhif cofrestru'r cwmni** | 07779153 |
| **Swyddfa gofrestredig** | Glyn Jones Centre |
| | Wales Millennium Centre, Bute Place, |
| | CARDIFF |
| | CF10 5AL |
| **Ymddiriedolwyr** | C. Charnell-White |
| | N. Jerome |
| | E Charles |
| | C Austin |
| | J D Ellis |
| | A Finlayson |
| | J O'Shea |
| | D Roberts |
| | O Taylor-Shaw |
| | C Thatcher |
| **Prif Weithredwyr Dros Dro** | Claire Furlong and Leusa Llewelyn |
| **Ysgrifennydd y Cwmni** | Alys Lewin |
| **Prif Fancwyr** | CAF Bank |
| | 25 Kings Hill Avenue, |
| | Kings Hill, |
| | Kent |
| | ME19 4JQ |
| **Archwilwyr** | BPU Chartered Accountants |
| | Radnor House |
| | Greenwood Close |
| | Cardiff Gate Business Park |
| | CF23 8AA |

**Llofnodwyd:**

Alys Lewin

Ysgrifennydd y Cwmni Dyddiad:

Dyddiedig: 29.09.2022

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

**Llenyddiaeth Cymru**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

**ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

---

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r cwmni elusennol, gan gynnwys incwm a gwariant, yn y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Cyn belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac maent wedi sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd drwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar a llofnodwyd ar ei ran gan: 27-x 2022

Cathryn Charnell-White

Ymddiriedolwr

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru**

---

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Llenyddiaeth Cymru (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a'r rheini'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2022 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol, yn y flwyddyn a ddaeth i ben;
- wedi'u paratoi'n gywir ac yn unol â'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ar gyfer y farn hon

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran am gyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol a'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth yr ydym wedi ei harchwilio yn ddigonol ac yn berthnasol er mwyn inni allu rhoi ein barn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, sef materion y mae'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd arnynt:

- os nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r busnes gweithredol yn ystod paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol: neu
- os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai godi cwestiynau arwyddocaol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau i fabwysiadau dulliau cyfrifyddu'r busnes gweithredol ar gyfer cyfnod o ddeuddeg mis fan lleiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

## Gwybodaeth bellach

Yr ymddiriedolwyr sy’n gyfrifol am y wybodaeth bellach. Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i’r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth bellach ac, ar wahân i’r graddau y datgenir hynny’n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ar y cynnwys hwnnw.

Mewn cyswllt â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth bellach ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu fel arall a yw’n ymddangos yn gamarweiniol o ran sylwedd. Os byddwn yn canfod anghysondeb o sylwedd neu gamddatganiadau ymddangosiadol o sylwedd, rhaid inni benderfynu a oes camddatganiad o sylwedd yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach.

Os byddwn, ar sail y gwaith a wnaed gennym, yn casglu bod camddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach hon, mae'n ofynnol inni adrodd hynny. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hynny o beth.

**Materion y mae angen inni roi adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, sef materion y mae Deddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyflwyno adroddiad ichi arnynt, os, yn ein barn ni:

- bod y wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r cwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'u hunain bod y datganiadau hynny'n rhoi darlun cywir a theg. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ba bynnag gamau rheoli mewnol y mae angen eu cymryd yn nhyb yr ymddiriedolwyr i allu paratoi'r datganiadau ariannol heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgan, os yw hynny'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol, a dylid defnyddio'r busnes gweithredol fel sail i'r cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu os nad oes unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau ni wrth archwilio'r datganiadau ariannol**

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac fe wneir yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf neu sy'n berthnasol o dan y Ddeddf.

Ein nod yw rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn ddatganiadau heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) wastad yn canfod camddatganiad o sylwedd pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn rhai o sylwedd os gellid, boed yn unigol neu

ynghyd, ddisgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r elusen a'r diwydiant y mae'n gweithredu ynddo, ac fe wnaethom ystyried risgiau gweithredoedd gan yr elusen a oedd yn groes i

gyfreithiau a rheoliadau cymwys, gan gynnwys twyll. Cynlluniwyd gweithdrefnau archwilio gennym i ymateb i'r risg, gan gydnabod bod y risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gallai twyll gynnwys celu bwriadol.

Y cyfreithiau a'r rheoliadau yr oeddem ni'n eu pennu oedd fwyaf arwyddocaol i'r elusen oedd y Ddeddf Cwmnïau, Deddf Elusennau, Cyfraith Cyflogaeth, rheoliadau Iechyd a Diogelwch, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (SVGA) 2006, Deddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg.

Cawsom ddealltwriaeth o sut mae'r elusen yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny trwy wneud ymholiadau i'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a chadarnhawyd yr ymholiadau hyn trwy ein hadolygiad o gofnodion bwrdd ac adolygiad o wariant cyfreithiol a phroffesiynol ar gyfer y flwyddyn.

Aseswyd pa mor agored yw datganiadau ariannol yr elusen i gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys sut y gallai twyll ddigwydd. Aethom i'r afael â'r risg y byddai rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol ac aseswyd effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith gan reolwyr i atal a chanfod twyll, gan gynnwys profi cyfnodolion â llaw a gwerthuso'r tybiaethau a'r dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yn rhan o Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru**

**Defnyddio ein hadroddiad**

Adroddiad i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, yn unig yw hwn. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallwn ddatgan wrth ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny mae angen inni eu datgan mewn adroddiad gan archwilwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb ac eithrio'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn rydym wedi'i rhoi.

ar ran BPU Limited

Cyfrifwyr Siartredig

Archwilydd Statudol

Yn gymwys i weithredu fel archwilydd o dan Adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Dyddiad: 27x2022

**Llenyddiaeth Cymru**

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2022**

| **INCWM A GWADDOL DRWY** | Nodiadau | **Cronfeydd anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **2022 Cyfanswm y cronfeydd £** | 2021 Cyfanswm y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
